**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-459
Ein cyf/Our ref

William Powell AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebiadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

committeebusiness@wales.gsi.gov.uk

25 Chwefror 2015

Annwyl William

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i gais gan Reolwr y Pwyllgor Busnes, a ddaeth i law ar 24 Chwefror, ynghylch y newyddion diweddaraf am ddeiseb rhif P-04-459 "Cyswllt rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i Caerdydd Canolog a Gorllewin Cymru".

Yn dilyn fy llythyr atoch ar 20 Mawrth, rwyf bellach wedi ystyried cynigion y Grŵp Gweithredu ar y Metro. Mae'r newyddion diweddaraf gan Astudiaeth Effaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fis Awst diwethaf yn cynnig gweledigaeth o rwydwaith tramwyo mawr sy'n cysylltu Caerdydd â'r ardal ddinesig ehangach. Er bod y buddsoddiadau posib hyn i'r seilwaith wedi'u gwerthuso ar lefel uchel, rydym bellach yn cynnal rhagor o waith yn cynllunio, datblygu a gwerthuo rhaglen gyflenwi.

Mae trydaneiddio a gwella Cledrau'r Cymoedd yn hollbwysig i'n huchelgais o ddarparu Metro De Cymru. Roedd y cyhoeddiad ar 21 Tachwedd o gytundeb cyllido rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth i drydaneiddio Prif Reilffrodd y Great Western yn gam mawr ymlaen i greu gwasanaeth trenau modern sy'n gallu bodloni'r galw yn y dyfodol ac sy'n cynnal twf economaidd. Cynigir y bydd y Metro yn cael ei ddatblygu i ddechrau yn gysylltiedig â'r bwriad i drydaneiddio rhwydwaith Prif Reilffordd y Great Western a Chledrau'r Cymoedd erbyn 2018 a 2020 yn y drefn honno. Mae'r gwaith wedi'i gomisiynu i ddiffinio opsiynau strategol ar gyfer addasu rheilffyrdd y Cymoedd, gan gynnwys opsiynau ar gyfer trydaneiddio a 'rheilffyrdd ysgafn'. Bydd yr opsiynu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

hwn ar lefel uchel wedi'i gwblhau yn y Gwanwyn a bydd yn sail i'r achosion busnes strategol manylach fydd yn cael eu datblygu erbyn yr haf.

Rydym hefyd yn gweithio ar ddefnyddio systemau ticedu technolegol i'w gwneud yn fwy addas i'r defnyddiwr. Bydd y cam cyntaf yn defnyddio technoleg ticedu doeth ar fysus yn ardal y Metro er mwyn cynnig dull gyffredinol o dalu trwy ddefnyddio cardiau clyfar. Bydd hyn yn rhoi platfform ar gyfer arloesi pellach i fodloni anghenion teithwyr.

Bydd is-gwmni Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd gennyf ar 5 Rhagfyr, yn y lle cyntaf, yn canolbwyntio ar roi cyngor ac arbenigedd technegol i yrru'r prosiectau sy'n gysylltiedig a'r Metro ymlaen, gan fanteisio i'r eithaf ar Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd pan fo'n bosibl a denu cyfraniadau gan y sector preifat.

Wedi hyn, rydym yn datblygu nifer o wahanol opsiynau cyflenwi gyda Bwrdd y Ddinas-Ranbarth ar gyfer camau nesaf y Metro. Byddem yn falch o roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor am y datblygaidau rydym yn eu gwneud wrth inni fynd ymlaen â'n nod o ddatblygu rhwydwaith tramwy cyflym integredig aml-foddol a fydd yn cynnig dewis arall ledled y rhanbarth yn Ne Cymru i ddefnyddio car, ac yn gweithredu fel model i'w ddefnyddio ledled Cymru yn y dyfodol.

Edwina Hart